PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 17 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Asghar Ali, Carter, Goddard, Kelloway a/ac Lent |

38 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ali Ahmed.

39 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

40 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

41 : CAFFAEL GOFAL CARTREF

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Susan Elsmore - Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant; Tony Young Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion a Leon Goddard sy'n Swyddog Project i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle pwysleisiodd bwysigrwydd y mater yn sgil y gwariant o £23 miliwn, nodwyd bod yr ymagwedd presennol wedi ei weld fel un dadleuol yn y gorffennol ond bodlonwyd yr Aelod Cabinet gan y cyflwyniad y byddai Aelodau yn gweld y buddion y mae wedi eu dwyn i'r system gaffael, yn enwedig o ran cydbwysedd rhwng gwariant ac ansawdd.

Rhoddwyd cyflwyniad ar Gaffael Gofal Cartref i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol ar Gefndir Gofal Cartref yng Nghaerdydd, y Drefn Bresennol o ran comisiynu Gofal Cartref, effaith y Drefn Bresennol o ran Trefniadau Comisiynu; Peryglon a Lliniariad; Argymhellion a Chamau Nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Roedd Aelodau yn pryderu nad oedd i Adroddiad y Cabinet ddadansoddiad o unrhyw opsiynau eraill, dim cymarebion ag awdurdodau lleol eraill i weld a wnaed arbedion â modelau eraill, a dim manylion os oedd yna fodelau rhatach ar gael. Eglurodd swyddogion fod yr Arolygaeth wedi cymeradwyo cyflwyno'r system hwn a bod yr enillion wedi eu cydnabod. Roedd darparwyr hefyd wedi cymeradwyo'r dull newydd yn llwyr. Atgoffwyd Aelodau mai dyfais i gaffael gofal oedd hwn ac mai'r gwaith o'i amgylch oedd yn allweddol i'w lwyddiant. Cynghorwyd Aelodau fod bellach ddwbl nifer y darparwyr o'i gymharu a phan gyflwynwyd y drefn, roedd y darparwyr hyn yn comisiynu ar gyfraddau

cystadleuol a chynaliadwy. Cynghorodd swyddogion fod gwerthusiad wedi ei gwblhau gan y grŵp project.

- Holodd aelodau am gost y pecyn cymorth TG ac os oedd hyn yn wariant gwerth chweil o'i gymharu a chyflogi staff i wneud y gwaith. Eglurodd swyddogion heb y system TG y byddai costau eraill yn codi a fyddai'n fwy na chost y system. Roedd swyddogion o'r farn fod cyfle yma i haneru'r costau presennol.

- Holodd Aelodau faint o amser roedd hi'n ei gymryd rhwng ymweliad cychwynnol i ddechrau pecyn gofal.Cynghorodd swyddogion ei bod yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos ond nad oedd oedi fel rheol ac unwaith fo rhywun ar y system, y gellid caffael pecyn gofal yr un diwrnod. Ychwanegodd Swyddogion nad oedd unrhyw becynnau gofal yn cael eu disgwyl gan ysbytyau a bod perfformiad oedi wrth drosglwyddo gofal y gorau y bu erioed.

- Holodd aelodau beth a wnaed parthed gwiriadau ar hap er mwyn monitro gwasanaethau darparwyr. Cynghorodd swyddogion fod trefniant cytundebol cadarn ar waith gyda'r darparwyr, bod gwiriadau ar hap ac ymweliadau yn digwydd a bod swyddogion yn mynd allan a gweld y darparwyr wrth eu gwaith. Mae yna hefyd weithdrefn uwchgyfeirio pryderon yn ei lle.

- Nododd aelodau fod yr adroddiad yn dweud fod 80% o'r pecynnau gofal a gyflwynwyd drwy'r DAPL wedi eu cymryd ar y cynnig cyntaf (heb orfod cael eu hail gyflwyno trwy'r DAPL) a gofynnont beth oed dyn digwydd i'r 20% arall.Dywedodd swyddogion fod y data hwn wedi ei gymryd dros gyfnod hir o amser ac yn fwy diweddar, bod darparwyr yn cysylltu â nhw er mwyn cymryd pecynnau gofal a bod y sefyllfa bresennol lawer yn well nag yr awgryma'r ffigyrau.

- Holodd yr aelodau allan o'r 2200 o bobl a oed dyn derbyn gofal, sawl un oedd yn derbyn gofal 24 awr. Dwedodd swyddogion mai nifer bychan oedd hwn, bod yna rai defnyddwyr gwasanaeth a gwasanaeth eistedd gyda'r nos ond bod hyn yn nifer bychan iawn yn y farchnad gofal cartref.

- Nododd aelodau gyfwng amser 4 Tachwedd 2018 a holi os oedd digon o amser i roi'r broses ar waith. Ystyriodd swyddogion bod hyn yn ddigon o amser, bod y gwaith paratoi wedi ei wneud a'i gwblhau ar y dechrau fel bod digon o amser i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau allasai godi. Roedd swyddogion yn rhagweld y byddent yn barod ymhell cyn mis Tachwedd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod wrth ei bodd bod hyn wedi ei gynnal yn iawn o safbwynt rheoli projectau a'i bod yn hapus â'r amserlen.

- Cyfeiriodd aelodau at gyfradd cyfartalog yr awr ar gyfer pecynnau gofal a gomisiynwyd gan y Cyngor, a oedd yn dangos 2 fis gwahanol a 2 flynedd wahanol ar gyfer y gymhariaeth, ac y byddai'r un mis yn yr un flwyddyn yn fwy cymharol.

- Nododd aelodau fod cyfraddau darparwyr wedi gostwng yn ddiweddar a holi sut oedd hyn yn effeithio ar y sefydliadau. Dwedodd swyddogion os oedd yna amrywiad mawr o ran cyfraddau rhwng darparwyr y byddent yn bryderus. Fe egluron nhw fod y modd y mae pecynnau gofal yn cael eu creu, fod llawer o

waith yn cael ei wneud yn y cefndir ar y cyfraddau. Mae'r cyfraddau gaiff eu cyflwyno yn dangos yr hyn sydd yn gynaliadwy i'r sefydliad, mae'n bosib y cânt effaith ar eu helw ond nad oes effaith ar staffio nac ansawdd y gwasanaeth. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr mai cyfrifoldeb y Cyngor yw i gaffael y gwasanaethau gorau ar y pris a'r ansawdd cywir i'w ddinasyddion ac mai sefydliadau busnes allanol megis darparwyr sydd yn gwneud penderfyniadau ar eu prisiau. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod pobl yn dal i ddod ati yn aml yn awyddus i ddod i'r farchnad felly roedd hi'n tybied fod y farchnad yn iach a chadarnhaol.

- Roedd aelodau'n falch o glywed fod yna ymgynghori rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y gofal a dderbyniwyd.

- O safbwynt y contract, nododd yr Aelodau y byddai hyn am 4 blynedd ac yna ei estyn fesul blwyddyn am hyd at 6 blynedd; Ystyriodd aelodau y dylai hyn hefyd gael ei adolygu fesul blwyddyn.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

42 : CYNLLUN CYFLENWI LLEOL - CEFNOGI POBL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle roedd hi'n diolch i Swyddogion am eu gwaith ar gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn y Ddinas. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod hi mor sicr ag y gallai fod, na fyddai'r gyllideb hon yn cael ei thorri gan Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu fod y gwaith sydd wedi mynd i mewn i hyn wedi helpu i adolygu gwasanaethau ac ailfuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol megis Digartrefedd Stryd.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar Gynllun Cyflenwi Lleol Gefnogi Pobl, oedd yn cynnwys gwybodaeth ar Gefndir, Cyflenwi a Gwario Cefnogi Pobl – Prif newidiadau 2018/19; Ail-gomisiynu Gwasanaethau Llety a Chymorth; Ail-gomisiynu – Gwasanaethau Penodol Ryw Benodol (gan gynnwys cam-drin domestig); Ail-gomisiynu – Gwasanaethau Pobl Hŷn a Gwasanaethau Llety a Chymorth Pobl Ifanc – Cynnydd wrth Ddatblygu Gwasanaethau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Holodd aelodau os gwnaed unrhyw fapio ar gyfer cymharu gydag Awdurdodau Lleol eraill parthed gwasanaethau megis Atal. Cynghorodd swyddogion nad wneir unrhyw fapio systematig ond bod arfer gorau yn cael sylw a'i fod yn cael ei rannu. Nodwyd fod gwariant yn wahanol iawn ar draws awdurdodau lleol gyda gwariant pennaf Caerdydd ar ddigartrefedd.

- Nododd aelodau y gostyngiad o 17 i 2 darparwr gan ystyried fod hwn yn ostyngiad dramatig.  Dywedodd swyddogion y byddai yna hefyd is-gontractau.

- Roedd aelodau yn falch clywed nad oedd hi'n debygol y byddai Llywodraeth Cymru yn lleihau'r cyllid eleni.

- Nododd aelodau eu pryderon ynghylch y gwasanaeth i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig, gan nodi na wnaed unrhyw gynnydd gwirioneddol ar hyn ers 2016. Eglurodd swyddogion y byddai'r gwasanaeth presennol yn parhau o hyd; roedd yn fater cymhleth sy'n cymryd amser a bod angen ystyried arfer gorau. Roedd asesiad angen statudol wedi ei gwblhau ac roedd hwn wedi dangos fod mwy o angen nag a ragwelwyd.  Roedd swyddogion angen cael y gwasanaeth yn gywir ac roeddent yn gweithio ar ymagwedd ranbarthol yn y gobaith o ddwyn y gwasanaeth ymlaen yn y flwyddyn nesaf.

- Gofynnodd aelodau am gadarnhad ar ba wasanaethau na fyddai wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth ac felly'n cael eu hymestyn am 12 mis pellach. Dywedwyd wrth aelodau mai gwasanaethau megis Digartrefedd Person Sengl, Porth Person Sengl a llety Arbenigol ayb oedd hynny.  Roedd rhain yn cael eu hystyried ar y cyd â Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Oedolion.

- Cyfeiriodd aelodau at lety Gwely a brecwast a'u bod yn deall nad oed dy math yma ar lety yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digartrefedd. Dywedodd swyddogion nad oedd llety Gwely a Brecwast ar gyfer digartrefedd wedi ei ddefnyddio ers tua 10 mlynedd, ond ei fod wedi ei ddefnyddio ar gyfer llety pobl ifanc cyn i'r porth ddechrau.

- Holodd aelodau a fyddai'r Projectau Atal Digartrefedd yn mynd i'r afael â phroblem Digartrefedd ar y Stryd yng Nghaerdydd.  Dywedodd swyddogion fod cysgu ar y stryd yn anffodus ar gynnydd a tra bo dy niferoedd uchaf erioed o gysgwyr stryd yn cael eu dwyn i fewn i hosteli ayb, nad oedd hynny yn lleihau'r niferoedd.  Cynghorodd swyddogion ymhellach fod capasiti yn yr hosteli ar hyn o bryd ac felly nad oedd llety yn broblem.  Roedd gofyn cael Gwasanaethau Cymorth Dwys ac y byddai effeithiolrwydd y rhain yn cael eu monitro, ond y dylid nodi fod pobl newydd yn cyrraedd y strydoedd bob dydd.

- Holodd yr aelodau os oedd y Gwasanaeth Mentora Ieuenctid yn cael ei hysbysebu a dywedwyd wrthynt mai gwasanaeth bychan arbenigol oedd hwn a fyddai'n rhan o'r gwasanaeth Cyflogadwyedd, a fyddai'n cael ei hysbysebu o fis Ebrill.

- Nododd aelodau yr ymagwedd ranbarthol at ddioddefwyr gwrywaidd ar gam-drin domestig a holi os byddai yr ymagwedd yma yn cael ei ystyried ar gyfer dioddefwyr Benywaidd oherwydd y gallai dioddefwyr ffoi i mewn ac allan o'r Ddinas.  Dywedodd swyddogion, waeth faint o fuddsoddi oedd mewn gwasanaethau ataliol, os nad oedd Awdurdodau lleol eraill yn buddsoddi mewn atal yna byddai pobl yn heidio i Gaerdydd a'i gwasanaethau, sy'n gallu bod yn anodd ei reoli.  Pwysleisiwyd os gellid gwneud unrhyw beth i gefnogi dinasyddion Caerdydd y byddai hynny'n cael ei wneud.  Gall pobl symud rhwng llochesi a rhaid bod yna nifer o lefydd sy'n gymesur â defnyddwyr gwasanaeth Caerdydd.

- Parthed y Stop Untro, holodd yr aelodau pam fod 2 adeilad. Dwedodd swyddogion mai mater Rhaglen Gyfalaf oedd hyn ac y byddai'n cael ei ddwyn ger bron yn fuan.  Pe byddai'r cynnig yn llwyddiannus yna dim ond un adeilad fyddai.

- Roedd Aelodau yn awyddus i gymeradwyo'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar Ddigartrefedd, yn enwedig y Project Cwmpawd a holwyd os oedd unrhyw siawns o gynnwys cymorth penodol ar gamddefnyddio sylweddau. Cynghorodd swyddogion y byddai cymorth dwys yn cynnwys cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.  Tybiai aelodau y gallai hyn gael ei wneud yn fwy eglur.

- Gwnaeth yr aelodau gais i'r nodiadau briffio gael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor wrth i'r project fynd rhagddo.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

43 : FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau y wybodaeth a dderbyniwyd a nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu gyrru, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau a'r Swyddogion perthnasol.

44 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Cynghorwyd aelodau fod dyddiad y cyfarfod nesaf wedi ei amserlennu ar gyfer 12 Chwefror 2018 am 10.00am.  Byddai'r cyfarfod hwn yn craffu ar y Cynllun Corfforaethol drafft a Chynigion Cyllidebol.